

Grwp Cymdogion a Ffrindiau (CAFF)

Pan fydd pobl newydd gyda ni rydym yn darllen hyn:

- Rydym yn hoffi cael pobl newydd mewn Grwpiau CAFF ac rydym yn falch o'ch gweld heddiw.
- Rydym yn dechrau ein cyfarfodydd yn brydlon ac mae pawb yn darllen llinell o'r agoriad. Os na fyddwch chi am siarad, gallwch basio ar unrhyw adeg.
- Rydym yn siarad amdanon ni ein hunain, ein gwaith a'n pwnc dewis am 3 i 4 munud.
- Mae'n hawdd anghofio'r amser! Peidiwch â phoeni os byddwch yn ei anghofio oherwydd bydd rhywun yn codi cerdyn melyn a gallwch orffen yn gyflym wedyn.
- Mae pawb yn gwranddo heb siarad nes i'r cyfarfod ddod i ben. Gallwn siarad â'n gilydd ar ôl y cyfarfod.
- Yr unig berson a all siarad am yr ail dro yw'r person sy'n dechrau cyfarfod.

Agor Cyfarfod CAFF

- Rydym yn eich croesawu i'r **Grŵp CAFF** hwn.
- Mae'r grŵp ar gael i bobl gael cyfarfod mewn cyfeillgarwch waeth beth fo'u cefndir neu eu crefydd.
- Rydym yn dod i siarad am ein bywyd bob dydd a gobeithio y byddwch yn meddwl bod pawb yn garedig.
- Rydym yn credu bod gwahanol wledydd yn creu byd sy'n fwy diddorol a chyffrous.
- Rydym yn chwilio am ddaioni ym mhob person a gwlad.
- Nid ydym yn clebran nac yn beirniadu ein gilydd.
- Does dim rhaid i chi siarad
- Rydym yn gwranddo heb roi cyngor i chi am eich bywyd
- Mae croeso i unrhyw un sy'n gyfeillgar
- Gawn ni eistedd yn dawel am foment neu ddwy i gofio ein bod ni eisiau i bobl y byd fyw mewn heddwch?

Heddiw rwy'n dechrau'r cyfarfod. Fy enw i yw _____.

“Rydyn ni eisiau Grwpiau CAFF mewn pentrefi a threfi ym mhob gwlad fel y gall unrhyw berson lleol neu unrhyw berson newydd i'r ardal ddod o hyd i Grŵp CAFF a gweld wynebau cyfeillgar.”

Cyfarfod CAFF

Cloi'r Cyfarfod

Rydym yn gobeithio i chi fwynhau'r cyfarfod hwn. Cofiwch y pethau roeddech chi'n eu hoffi a maddeuwch ac anghofiwch y pethau nad oeddech yn eu hoffi. Rydym i gyd yn ddynol ac rydym yn gwneud camgymeriadau weithiau.

Rydym yn falch eich bod wedi dod. Os byddwch yn parhau i wneud, rydym yn meddwl y byddwch yn teimlo bod y byd yn lle mwy cyfeillgar.

Gobeithio yr ewch chi adre gan deimlo'n dda ac y byddwch yn pasio'r teimlad ymlaen at bawb y byddwch yn cyfarfod â nhw.

Mwynhewch eich wythnos!

“Rydym eisiau Grwpiau CAFF mewn pentrefi a threfi ym mhob gwlad fel y gall unrhyw berson lleol neu unrhyw berson newydd i'r ardal ddod o hyd i Grŵp CAFF a gweld wynebau cyfeillgar.”